



monmouthshire sir fynwy

Adroddiad Monitro Blynyddol

Safonau'r Iaith Gymraeg

Cyngor Sir Fynwy

1af Ebrill 2024 – 31ain Mawrth 2025



Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Fynwy ar Safonau'r iaith Gymraeg. Ei bwrpas yw gwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r Safonau, a'r ffyrdd yr ydym wedi hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad oedd yr iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y flwyddyn. Fe'i lluniwyd yn unol ag Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, er mwyn bodloni gofynion Safonau 158, 164 a 170.

Gwybodaeth bellach

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Sir Fynwy: www.monmouthshire.gov.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Nia Roberts

Swyddog Iaith Gymraeg

Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Pennie Walker

Rheolwr Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau

Cyngor Sir Fynwy

Neuadd y Sir

Y Rhadyr

Brynbuga

NP15 1GA

Ffôn: 01633 644010

E-bost: niaroberts@sirfynwy.gov.uk

Ffôn: 01633 644413

E-bost: penniewalker@sirfynwy.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ac ni fydd cysylltu â ni yn y Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.



Dogfennau Perthnasol

[Strategaeth Iaith 5 Mlynedd Cyngor Sir Fynwy 2022-2027](#)

Yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg yn ystod 2024/25 oedd y Cyngorydd Angela Sandles.

Cynnwys

1. Cefndir	Tud. 4
2. Cydymffurfiaeth	Tud. 5-14
• Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Tud. 5-9
• Safonau Llunio Polisi	Tud. 10
• Safonau Gweithredol	Tud. 11-14
3. Cwynion	Tud. 15
4. Sgiliau Iaith Gymraeg	Tud. 16-17
5. Cyrsiau Iaith Gymraeg	Tud. 18-19
6. Recriwtio	Tud. 20-21
7. Gwasanaeth Cwsmeriaid	Tud. 22-23
8. Hyrwyddo	Tud. 24-25
9. Casgliad	Tud. 26-28

1. Cefndir

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg fel rhan annatod o'n hunaniaeth ddiwylliannol, ein treftadaeth a'n cydlyniant cymunedol. Drwy gydol y flwyddyn 2024/2025, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle gall yr iaith Gymraeg ffynnu, a lle gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Sefydlodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol a osododd ddyletswydd ar Gyngor Sir Fynwy, ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Prif egwyddorion y Safonau hyn yw:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- dylem hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith

Yn 2015, derbyniodd Cyngor Sir Fynwy hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Safonau y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hwy. At ei gilydd, mae 176 o Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i Gyngor Sir Fynwy. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod mewn 5 categori, sef:

- Cyflwyno Gwasanaethau
- Llunio Polisiâu
- Gweithredol
- Hyrwyddo
- Cadw Cofnodion

Mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni:

- Cynhyrchu a chyhoeddi ar ein gwefan strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso defnydd o'r iaith yn ehangach yn ein hardal. (Safonau 145,146)
- Llunio adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â sut rydym wedi cydymffurfio â'r Safonau a'i gyhoeddi ar ein gwefan. (Safonau 158, 164, 170)

Mae [Hysbysiad Cydymffurfio'r](#) Cyngor i'w weld ar ein gwefan ddwyieithog

2. Cydymffurfiaeth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Grŵp y Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2024/2025	Camau sydd i'w Cymryd yn ystod 2025/2026
Safonau 1 – 7: Gohebiaeth a anfonwyd a dderbyniwyd	Atgoffwyd staff o ofynion yr iaith Gymraeg yn ein gohebiaeth.	Monitro cydymffurfiaeth ar draws yr Awdurdod.
Safonau 8 – 22: Galwadau ffôn a wnaed a dderbyniwyd	- Hyd at fis Mawrth 2025, roedd galwadau ffôn Cymraeg i'r Cyngor yn cael eu rheoli drwy system hela, lle roedd galwyr yn cael eu cyfeirio at gronfa o swyddogion sy'n siarad Cymraeg o bob rhan o'r Awdurdod. - Ym mis Mawrth 2025, yn dilyn caffael system deleffoni newydd yn y Ganolfan Gyswllt, diweddarwyd y broses ar gyfer trin galwadau Cymraeg. Nawr, mae'r galwadau hyn yn cael eu cyfeirio'n syth at gynghorydd sy'n siarad Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt. Os nad oes cynghorydd sy'n siarad Cymraeg ar gael, mae'r system yn dychwelyd i'r hen system grŵp hela i sicrhau bod yr alwad yn cael ei hateb cyn gynted â phosibl.	- Monitro effeithlonrwydd y system newydd. - Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r prosesau wrth dderbyn galwadau ffôn yn y Gymraeg.
Safonau 24 – 36: Cyfarfodydd â'r Cyhoedd	Cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn cyfarfodydd cyhoeddus lle bo angen.	Monitro i sicrhau bod y cynnig o gyfieithu ar y pryd yn parhau i gael ei wneud a'i fod yn gyson.
Safonau 37 - 51, 69 – 70: Dogfennau dwyieithog eraill	- Cyhoeddwyd nodyn atgoffa gan staff o'r angen i ddatgan bod dogfennau hefyd ar gael yn y Gymraeg. - Monitro cydymffurfiaeth drwy wiriadau gwefan a cheisiadau cyfieithu a	- Defnyddiwyd 'Awgrym Cymraeg' o fewn Cylchlythyr Staff Compass i atgoffa staff o'r gofynion. - Monitro cydymffurfiaeth yn agos

	wneir drwy'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg. • Mae pob ffurflen ar gyfer defnydd y cyhoedd yn cael ei chreu'n ddwyieithog. • Mae pob hysbysiad swyddogol yn cael ei gynhyrchu a'i arddangos yn ddwyieithog.	
Safonau 52 – 60: Gwefannau, Cyfryngau Cymdeithasol, Apiau, a Pheiriannau Hunanwasanaeth	• Caiff gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu monitro'n agos i sicrhau cydymffurfiaeth gan y Swyddog Gwefan a'r Swyddog Iaith Gymraeg. • Pan fydd problemau'n codi, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn cysylltu â'r Swyddog Gwefan ac awduron y wefan i gywiro unrhyw broblemau. • Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn cofnodi gwiriadau cydymffurfiaeth ar gyfer gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac yn nodi unrhyw gamau a gymerwyd. • Dyma nifer y trawiadau ar y Gymraeg a'r Saesneg: Ailgylchu a Gwastraff: Saesneg: 126,892 Cymraeg: 320	• Parhau i fonitro a chofnodi cydymffurfiaeth. • Creu hyfforddiant gorfodol i awduron gwefannau ar sut i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar lwyfannau digidol. • Creu cofnod o unrhyw broblemau a nodwyd ac unrhyw gamau a gymerwyd i'w datrys.

	Y Dreth Gyngor: Saesneg: 44,421 Cymraeg: 68 Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant ac Addysg Ysgolion: Saesneg: 2,790 Cymraeg: 59 Addysg Cyfrwng Cymraeg: Saesneg: 542 Cymraeg: 67 Hybiau Cymunedol a Llyfrgelloedd: Saesneg: 27,316 Cymraeg: 264 Cost Byw Saesneg: 3,275 Cymraeg: 103	
Safonau 61 – 63: Arwyddion	- Mae pob arwydd stryd newydd naill ai'n ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg. Dewisir enwau'n ofalus i adlewyrchu hanes a threftadaeth yr ardal. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd i helpu gyda'r broses hon. - Er mwyn sicrhau cyfieithiadau cywir, anfonir pob cyfieithiad enwau strydoedd at gyfieithydd unigol sy'n	Swyddog yr Iaith Gymraeg i barhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Enwi Strydoedd ar enwi strydoedd newydd.

	wybodus ac yn brofiadol mewn cyfieithu enwau strydoedd.	
Safonau 64 – 68: Gwasanaethau'r Dderbynfa	• Mae derbynfeydd ar draws yr awdurdod yn cael eu monitro i sicrhau bod posterï 'Cymraeg' yn cael eu harddangos yn nodi y gellir defnyddio'r Gymraeg. • Sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hasesu yn ystod cyfweiliadau ar gyfer swyddi derbynfa. • Cynhaliodd Archwiliad Mewnol adolygiad o gydymffurfiaeth iaith Gymraeg derbynfeydd. Tynnodd y canfyddiadau sylw at anghysondebau mewn sgiliau iaith Gymraeg ar draws gwasanaethau derbynfa, gyda gwasanaeth iaith Gymraeg llawn ddim ar gael bob amser.	• Datblygu hyfforddiant iaith Gymraeg wedi'i dargedu ar gyfer staff y dderbynfa i wella sgiliau presennol a meithrin hyder wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog. • Cydweithio â rheolwyr gwasanaethau'r dderbynfa i sefydlu cynlluniau clir ar gyfer bodloni'r galw cyhoeddus am wasanaethau derbynfa yn y Gymraeg. • Sicrhau bod pob swydd dderbynfa newydd yn cael ei hysbysebu fel un lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaeth gyson. • Parhau i fonitro gwasanaethau'r dderbynfa ar draws yr Awdurdod.
Safonau 71 – 75: Dyfarnu Grantiau	• Mae gan y Cyngor bolisi ar gyfer 'Dyfarnu Grantiau a'r iaith Gymraeg'.	• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
Safonau 76 – 80: Dyfarnu Contractau	• Mae gan y Cyngor restr wirio Gofynion iaith Gymraeg - Caffael.	• Monitro i sicrhau cydymffurfiaeth.
Safonau 81 – 82: Hyrwyddo Gwasanaethau iaith Gymraeg	• Caiff gwasanaethau iaith Gymraeg eu hyrwyddo'n weithredol ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y cyngor. • Crëir deunydd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer dyddiadau pwysig yng	• Monitro cyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn parhau i gael eu hyrwyddo'n weithredol. • Trefnu hyrwyddiadau ar gyfer digwyddiadau / dyddiadau allweddol.

	nghalendr y Gymraeg i hyrwyddo'r iaith.	
Safonau 83: Hunaniaeth Gorfforaethol	• Rhoddir cyfeiriad e-bost dwyieithog i bob aelod o staff. • Sicrhau bod pob agwedd ar hunaniaeth gorfforaethol yn ddwyieithog ac nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol.	• Sicrhau bod cyfeiriadau e-bost dwyieithog yn cael eu defnyddio ar draws ein gwefan, dogfennau a ffurflenni.
Safonau 84 a 86: Cyrsiau Addysgol	• Caiff cyrsiau addysgol eu hasesu i benderfynu a oes angen eu cyflwyno yn y Gymraeg.	• Parhau i asesu a monitro'r angen i gyflwyno cyrsiau addysgol yn y Gymraeg.
Safonau 87: Systemau Cyfeiriad Cyhoeddus	• Mae pob system cyfeiriad cyhoeddus yn ddwyieithog. • Monitro cydymffurfiaeth drwy ymweliadau.	• Atgoffa staff o'r gofynion. • Monitro cydymffurfiaeth.

Safonau Llundio Polisi

Grŵp y Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2024/2025	Camau sydd i'w Cymryd yn ystod 2025/2026
Safonau 88 – 93: Llundio Polisi	- Hyfforddiant ar 'Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg' wedi'i ddarparu yn Adran Gwasanaethau Democrataidd yr Hwb. - Cynhelir asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. - Cyfarfodydd sicrhau ansawdd ar gyfer Asesiadau Effaith a rhoddir adborth i awduron adroddiadau - Tîm Polisi. - Adolygwyd a diweddarwyd templed a chanllawiau Asesiad Effaith Integredig. - Recordiwyd fideos sy'n rhoi gwybodaeth i swyddogion ar sut i gwblhau'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a byddant ar gael yn fuan ar ein platfform dysgu Thinqi.	- Fideos a hyfforddiant pellach i'w lanlwytho ar blatfform dysgu Thinqi. - Cynnal gweithdai ar gwblhau Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg effeithiol i gefnogi gwneud penderfyniadau polisi gwybodus a chydymffurfiol. - Cyfarfodydd sicrhau ansawdd i barhau a monitro effeithiolrwydd ar ganlyniadau. - Monitro cydymffurfiaeth â safonau a rhoi hyfforddiant pellach i staff lle nodir problemau.

Safonau Gweithredol

Grŵp y Safonau	Camau a Gymerwyd yn ystod 2024/2025	Camau a Gymerwyd yn ystod 2025/2026
Safonau 99 – 104: Dogfennau Cyflogaeth	- Mae fersiynau Cymraeg o'r polisïau allweddol canlynol ar gael ar dudalen iaith Gymraeg mewnwyd y staff: Tegwch yn y Gweithle, Rheoli Presenoldeb, Oriau ac Absenoldeb, Disgyblaeth, Cod Ymddygiad, a Gwerthuso Perfformiad. - Atgoffir staff yn rheolaidd o'u hawl i dderbyn dogfennau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn y Gymraeg trwy ddiweddariadau a rennir yn sianel Timau Cymraeg.	Parhau i atgoffa staff yn rheolaidd am eu hawl i dderbyn dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y Gymraeg.
Safonau 105 – 111: Polisïau Adnoddau Dynol	Ar hyn o bryd, dim ond drwy adran iaith Gymraeg yr Hwb y mae fersiynau Cymraeg o bolisïau allweddol Adnoddau Dynol (AD) ar gael ac nid ydynt wedi'u rhestru eto o dan brif adran Polisi tudalen AD.	- Symud fersiynau Cymraeg polisïau AD i adran Polisïau tudalen AD ar fewnwyd y staff a rhoi canllawiau clir i staff ar sut a ble i gael mynediad atynt. - Sicrhau bod fersiynau Cymraeg polisïau AD yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ochr yn ochr â'u cymheiriaid Saesneg er mwyn cynnal cywirdeb a chydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg.
Safonau 112 – 119: Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu	Mae staff yn cael gwybod am eu hawl i gwblhau'r broses gwyno / disgyblu yn y Gymraeg.	Parhau i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal. Defnyddio Sianel 'Teams' Cymraeg i sicrhau bod nodyn atgoffa yn cael eu hanfon at staff.
Safonau 120 – 126: Mewnwyd Staff ac Adnoddau TG	Mae Cysgliad ar gael ar bob cyfrifiadur, gan ddarparu gwiriad sillafu a gramadeg Cymraeg, yn	- Parhau i gynnig cefnogaeth i staff ar ddefnyddio 'Cysgliad' - Cydweithio â Swyddog yr Hwb i wella cynllun a

	ogystal â geiriadur Saesneg-Cymraeg. • Darperir Meddalwedd To Bach ar bob cyfrifiadur i gynorthwyo staff i deipio'n haws yn y Gymraeg. • Darperir canllawiau ar sut i ddefnyddio Cysgliad / To Bach ar Sianel 'Teams' Cymraeg. • Mae tudalen iaith Gymraeg bwrpasol ar gael ar fewnwyd y staff, gan gynnig dogfennau allweddol a chymorth.	defnyddioldeb yr adran iaith Gymraeg ar fewnwyd y staff, ac ehangu'r ystod o ddogfennau cymorth sydd ar gael i gynorthwyo staff yn well i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu rolau
Safon 127: Sgiliau iaith Staff	• Cesglir gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn ystod y broses ymgeisio am swyddi newydd. • Mae'r Swyddog iaith Gymraeg yn derbyn gwybodaeth gan Adnoddau Dynol am staff newydd ac ymadawedig a'u sgiliau iaith Gymraeg cofnodedig. Diweddarir y rhestr o siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd.	• Ymgorffori adrodd ar sgiliau iaith Gymraeg mewn system ar-lein fel Thinqi. Diwygio ein fframwaith iaith Gymraeg i ddefnyddio'r CEFR (Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd) ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg yn lle fframwaith ALTE (Cymdeithas Profwyr leithoedd Ewrop). Bydd y newid hwn yn cyd-fynd â'n fframwaith â'r safon a ffefrir gan sefydliadau eraill.
Safonau 128 – 133: Hyfforddiant Staff	• Mae'r Swyddog iaith Gymraeg, ochr yn ochr â'r Rheolwr Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, yn chwarae rhan weithredol yn y broses Sefydlu Gorfforaethol drwy gydol y flwyddyn drwy gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i staff newydd. Yn ystod y sesiynau hyn, mae'r Swyddog iaith Gymraeg yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar hanes a phwysigrwydd yr iaith	• Swyddog yr iaith Gymraeg i barhau i fod yn rhan o'r broses sefydlu. • Parhau i hysbysebu a hyrwyddo hyfforddiant Cymraeg i staff.

	Gymraeg, yn amlinellu cyfrifoldebau'r Cyngor o dan Safonau'r Iaith Gymraeg ac yn egluro'r rôl y mae gweithwyr yn ei chwarae wrth gefnogi a hyrwyddo'r iaith. Mae staff hefyd yn cael gwybod am yr ystod o adnoddau cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac offer ymarferol i'w helpu i ddefnyddio'r iaith yn hyderus yn y gweithle. • Mae cyrsiau iaith Gymraeg ar bob lefel ar gael i bob aelod o staff. • Mae 53 o aelodau staff wedi cwblhau cwrs Cymraeg yn 24/25.	
Safon 134; Geiriad a Logo a Safon 135: Llofnodau E-bost Staff	• Mae gan bob aelod o staff fynediad at y gwasanaeth cyfieithu i sicrhau bod llofnodion e-bost yn ddwyieithog. • Mae logo 'Cymraeg Gwaith' ar gael ar fewnrwyd y staff yn ogystal â Sianel 'Teams' Cymraeg i staff ei gynnwys yn eu llofnodion e-bost.	• Parhau i ddefnyddio Sianel 'Teams' Cymraeg i rannu gwybodaeth gyda staff sy'n siarad Cymraeg. • Defnyddio'r adran "Awgrym Cymraeg" yn y cylchlythyr staff i atgoffa staff o'r gofyniad am lofnodion e-bost dwyieithog a rhoi canllawiau ar sut i ofyn am gyfieithiad.
Safonau 136 – 140: Proses Recriwtio	• Gweler yr adran ar 'Recriwtio' • Mae'r Cyngor yn cyhoeddi pob swydd wag newydd fel un lle mae'r iaith Gymraeg yn ddymunol neu'r iaith Gymraeg yn hanfodol. Mae pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog a'n cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ac asesiad iaith Gymraeg.	• Parhau i ddefnyddio safleoedd recriwtio iaith Gymraeg. Swyddog iaith i fonitro canlyniadau'r hysbysebion hyn. • Darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer swyddi lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol i nodi pa fathau o sgiliau fydd eu hangen ar gyfer y rôl.

	• Mae Swyddog yr Iaith Gymraeg yn monitro hysbysebion swyddi newydd i sicrhau cydymffurfiaeth. • Mae pob rôl sy'n cael ei hasesu fel un sy'n Hanfodol yn y Gymraeg a rhai rolau dethol sy'n Ddymunol yn y Gymraeg yn cael eu hysbysebu ar wefannau recriwtio iaith Gymraeg.	• Creu hyfforddiant i reolwyr ar recriwtio trwy gyfrwng y Gymraeg.
Safonau 141 – 143: Arwyddion Mewnol	• Canllawiau wedi'u darparu i staff ar gyfer arwyddion mewnol. • Arwyddion yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.	• Parhau i fonitro cydymffurfiaeth.
Safon 144: Cyhoeddiadau yn y Gweithle	• Mae pob cyhoeddiad yn cael ei recordio'n ddwyieithog.	• Monitro cydymffurfiaeth.

3. Cwynion

Cwynion gan y Cyhoedd

Plât Enw Stryd - Derbyniwyd cwyn ynghylch y cyfieithiad Cymraeg o 'Springfield Road' ar blât enw stryd yn y Fenni, lle roedd y gair 'spring' wedi'i gamgyfieithu i adlewyrchu'r tymor yn hytrach na ffynhonnell ddŵr. Ymchwiliodd y Swyddog Iaith Gymraeg a'r Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd i'r mater ac ar ôl ymgynghori â chyfieithydd, cytunodd ar y fersiwn gywir "Heol Cae'r Ffynnon." Bydd plât gyda'r enw diwygiedig yn cael ei roi yn ystod y rownd nesaf o ddiweddariadau plât enw. Mae'r cyfieithiad gwreiddiol, a wnaed dros ddegawd yn ôl, yn rhagddyddio'r Safonau cyfredol ac nid oes unrhyw gofnodion yn bodoli sy'n egluro'r penderfyniad cychwynnol ar gyfer y cyfieithiad hwn. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn parhau i gryfhau ei broses gyfieithu trwy gydweithio rhwng swyddogion a chyfieithydd pwrpasol, gan sicrhau cysondeb a sensitifrwydd diwylliannol ym mhob proses enwi strydoedd yn y dyfodol.

Ymatebion Awtomataidd - Derbyniwyd cwyn ynghylch diffyg ymateb dwyieithog a gynhyrchwyd gan system adrodd 'Fy Sir Fynwy' (My MonLife) y Cyngor pan gwblheir cais am wasanaeth. Nodwyd bod cyflwyniadau yn y Gymraeg yn sbarduno atebion Saesneg yn unig. Mewn ymateb, cydweithiodd y Swyddog Iaith â'r tîm digidol i ymchwilio i'r mater a'i ddatrys. Gwnaed diweddariadau i'r system i sicrhau bod yr ymatebion Cymraeg bellach yn cael eu cyhoeddi pan gyflwynir ffurflenni Cymraeg. Yn ogystal, atgoffwyd staff o Safonau'r Iaith Gymraeg, ac mae gweithdrefnau monitro wedi'u cryfhau i gynnal cydymffurfiaeth ddwyieithog.

Cwynion gan Gomisiynydd y Iaith Gymraeg

Gwasanaethau Trydydd Parti - Derbyniwyd gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn gofyn am wybodaeth am gontract trydydd parti, yn dilyn pryderon a godwyd gan aelod o'r cyhoedd ynghylch diffyg gwasanaeth dwyieithog wrth gysylltu â'r darparwr am gymorth. Gofynnodd y Comisiynydd am eglurhad ar natur y berthynas rhwng y Cyngor a'r trydydd parti, yn benodol a oedd y cwmni'n darparu gwasanaethau ar ran yr Awdurdod. Caiff y gwasanaeth ei weithredu o dan gytundeb consesiwn fel rhan o brosiect cydweithredol sy'n cynnwys sawl Awdurdod Lleol. Roedd y broses gaffael wreiddiol, o dan arweiniad un o'r Awdurdodau partner, yn cynnwys gofyniad i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, gan gynnwys desg gymorth ddwyieithog. Mae'r mater hwn yn parhau i gael ei ymchwilio gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Cyrsiau Cymraeg - Cysylltodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg â ni gan fod pryder wedi'i godi ynghylch mynediad at wersi iaith Gymraeg ar gyfer gweithiwr rhan-amser. Roedd y pryder yn ymwneud â gallu'r gweithiwr i fynychu cwrs wedi'i drefnu oherwydd ei batrwm gwaith. Mewn ymateb, gweithiodd y Swyddog Iaith gyda'r timau perthnasol a Dysgu Cymraeg Gwent i ddod o hyd i ddosbarth mwy addas. Cytunwyd ar drefniant diwygiedig, gan ganiatáu i'r gweithiwr barhau â'i ddysgu. Rhannwyd y penderfyniad hwn â swyddfa'r Comisiynydd, gan ddangos ymrwymiad y Cyngor i gefnogi staff i gael mynediad at hyfforddiant iaith Gymraeg.

4. Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r tablau canlynol yn cyflwyno data ar staff sydd wedi cofnodi rhywfaint o sgiliau iaith Gymraeg.

Lefelau Sgiliau Iaith Gymraeg y Staff

Lefel Sgiliau Iaith Gymraeg	Nifer y Staff (ac eithrio ysgolion)	Canran
Rhugl	48	12.2%
Uwch	7	1.8%
Canolradd	51	13.0%
Sylfaenol	33	8.4%
Dechreuwr	253	64.5%
Cyfanswm	392	-

Sgiliau Iaith Gymraeg yn ôl Cyfarwyddiaeth

Cyfarwyddiaeth	Nifer y Siaradwyr Cymraeg (ac eithrio ysgolion)	Canran %
Dysgu, Sgiliau a'r Economi	28	7.1%
Lle	23	5.9%
Cyfraith a Llywodraethu	6	1.5%
Adnoddau	19	4.8%
Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd	129	32.9%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	15	3.8%
Prif Weithredwyr – Tai, Datblygu Gwledig a Phartneriaethau Strategol	18	4.6%
Seilwaith	37	9.4%
Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant	117	29.8%
Cyfanswm	392	-

Siaradwyr Cymraeg Rhugl yn ôl Cyfarwyddiaeth

Cyfarwyddiaeth	Nifer y Siaradwyr Cymraeg (heb gynnwys ysgolion)	Canran %
Dysgu, Sgiliau a'r Economi	2	4.2%
Lle	2	4.2%
Cyfraith a Llywodraethiant	4	8.3%
Adnoddau	2	4.2%
Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd	17	35.4%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	3	6.3%
Prif Weithredwyr – Tai, Datblygu Gwledig a Phartneriaethau Strategol	1	2.1%
Seilwaith	1	2.1%
Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant	16	33.3%
Cyfanswm	48	-

5. Cyrsiau Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cynnig ystod eang o gyrsiau iaith Gymraeg i staff ar bob lefel o hyfedredd. Nod y cyrsiau hyn yw cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg o fewn yr Awdurdod a hybu eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith. Mae sicrhau bod staff yn dysgu Cymraeg yn hanfodol er mwyn i'r Awdurdod ddarparu gwasanaethau iaith Gymraeg teg i'n trigolion. Yn ogystal, mae cynnig y cyrsiau hyn yn helpu'r Awdurdod i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Caiff y cyrsiau eu hwyluso trwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg a'u cyflwyno gan Goleg Gwent. Fe'u hariennir gan yr Adran Iaith a rhoddir amser i staff gwblhau'r cyrsiau hyn yn ystod eu horiau gwaith.

Yn y flwyddyn 2024/2025, dyma nifer y staff a fynychodd gyrsiau iaith Gymraeg ar y lefelau perthnasol:

Lefel iaith y Cwrs	Nifer y Staff Yn Cwblhau'r Cwrs 2023/2024	Nifer y Staff Yn Cwblhau'r Cwrs 2024/2025
Mynediad 1	23	26
Mynediad 2	10	10
Sylfaen 1	1	9
Sylfaen 2	2	3
Canolradd 1	2	0
Canolradd 2	1	3
Uwch 1	1	0
Uwch 3	0	2
Hyfedredd	0	0
Cyfanswm	40	53

Staff sy'n cwblhau cyrsiau fesul cyfarwyddiaeth 2024/2025

Cyfarwyddiaeth	Nifer y Staff	Canran %
Dysgu, Sgiliau a'r Economi	10	18.9%
Lle	4	7.5%
Cyfraith a Llywodraethiant	0	0%
Adnoddau	3	5.7%
Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd	9	17.0%
Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau	8	15.1%
Prif Weithredwyr – Tai, Gwledig Datblygu a Phartneriaethau Strategol	6	11.3%
Seilwaith	2	3.8%
Cwsmeriaid, Diwylliant a Llesiant	11	20.8%
Cyfanswm	53	-

Mae Safon 128 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i staff yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Anwytho;
- Delio â'r cyhoedd; a
- Iechyd a diogelwch.

Gofynnir i staff a hoffent dderbyn y sesiynau hyfforddi hyn yn y Gymraeg.

Rydym yn defnyddio ein Grŵp Timau Iaith i atgoffa staff yn weithredol eu bod yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant uchod drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Recriwtio

Swyddi a Hysbysebwyd yn ystod 2024–2025

	2023- 2024 Rhif	2023- 2024 %	2024- 2025 Rhif	2024- 2025 %
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd	649	-	384	-
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd â 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn Hanfodol'	24	3.7%	9	2.3%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd â 'Sgiliau Iaith Gymraeg yn Ddymunol'	625	96.3%	375	97.7%
Swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd a bennwyd fel swyddi lle mae'n 'angenrheidiol dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0	0	0	0
Nifer y swyddi gwag/newydd a hysbysebwyd lle 'nad oedd angen sgiliau iaith Gymraeg'	0	0	0	0
Y nifer nad oeddent yn cynnwys asesiad	0	0	0	0
Y nifer heb ei nodi	0	0	0	0

Swyddi Ysgol a Hysbysebwyd yn ystod 2024–2025

	2023-2024 Rhif	2023- 2024 %	2024- 2025 Rhif	2024- 2025 %
Swyddi gwag/newydd ysgolion wedi'u hysbysebu	117	-	299	-
Swyddi gwag/swyddi gwag newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd â 'sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol';	20	17.1%	15	5.0%
Swyddi gwag ysgolion /swyddi gwag newydd a hysbysebwyd â 'sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol'	97	82.9%	284	95.0%
Swyddi gwag/newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd wedi'u pennu fel swyddi lle mae'n 'angenrheidiol dysgu sgiliau iaith Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd'	0	0	0	0
Nifer y swyddi gwag/newydd mewn ysgolion a hysbysebwyd lle nad oeddent yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg	0	0	0	0

Y nifer nad oedd yn cynnwys asesiad	0	0	0	0
Y nifer heb ei nodi	0	0	0	0

Mae'r broses ymgeisio am swydd yn gwbl hygyrch yn y Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg, a hysbysebir pob swydd wag yn ddwyieithog. Fel rhan o'r broses recriwtio ac yn unol â Safon 136, rhaid asesu pob swydd wag am yr angenrheidrwydd am sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor yn dosbarthu pob swydd wag newydd fel un lle mae'r iaith Gymraeg yn ddymunol o leiaf.

Ar gyfer swyddi sy'n cynnwys gradd uchel o ryngweithio â'r cyhoedd neu lle mae diffyg sgiliau iaith Gymraeg cyfredol yn y maes gwasanaeth, caiff y rolau hyn eu hasesu fel rhai lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol. Ar gyfer y swyddi hanfodol hyn, rydym yn annog rheolwyr i nodi yn y disgrifiad swydd y mathau o sgiliau Cymraeg sydd eu hangen. Nod y dull hwn yw annog ceisiadau gan unigolion sydd wedi dysgu'r iaith, gan fod dysgwyr yn aml yn brin o'r hyder i wneud cais am rolau lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol oherwydd ansicrwydd ynghylch y tasgau y bydd angen iddynt eu cyflawni yn y Gymraeg.

Yn ogystal, rydym yn cynnwys y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ym mhob hysbyseb swydd. Rydym hefyd yn defnyddio gwefannau recriwtio iaith Gymraeg i hysbysebu swyddi sy'n cael eu hasesu fel rhai lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol, yn ogystal â rhai swyddi lle mae'r iaith Gymraeg yn ddymunol. Drwy hysbysebu rolau ar y safleoedd recriwtio pwrpasol hyn, rydym yn ei gwneud hi'n haws i siaradwyr Cymraeg ddod o hyd i'n swyddi gwag, ac rydym wedi llwyddo i benodi siaradwyr Cymraeg o ganlyniad.

Ym mis Ionawr 2025, lansiodd y Cyngor system e-recriwtio newydd gyda'r nod o symleiddio prosesau a gwella'r profiad recriwtio a sefydlu ar gyfer rheolwyr llogi a darpar weithwyr. Mae'r system yn gwbl ddwyieithog, ac mae hysbysebion swyddi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â gofynion yr iaith Gymraeg ar draws pob cam o'r broses recriwtio.

7. Gwasanaeth Cwsmeriaid

Galwadau Ffôn Iaith Gymraeg

Rhwng 1af Ebrill 2024 a'r 31ain Mawrth 2025 gwnaed 69 o alwadau i'r llinell iaith Gymraeg.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad adrannol o natur yr ymholiadau ar gyfer y blynyddoedd 2022–2023, 2023–2024, a 2024–2025.

Adran	Nifer y Galwadau Cymraeg 2022-2023	Nifer y Galwadau Cymraeg 2023-2024	Nifer y Galwadau Cymraeg 2024-2025
Ailgylchu a Gwastraff	17	27	33
Tîm Cyfathrebu	5	2	0
Y Dreth Gyngor / Cyfraddau / Cyllid	4	9	10
PPI / Addysg	3	2	5
Priffyrdd	4	4	12
Swyddog Iaith Gymraeg	4	3	0
Cefn Gwlad	1	0	0
Grantiau	0	1	0
Llwybrau Glaswellt / Cludiant Teithwyr	2	0	4
Gofal Cymdeithasol	2	5	1
Cynllunio	2	1	0
Trwyddedu	1	0	0
Canolfan Hamdden	0	0	1
Derbynfa	0	0	1
Adnoddau Dynol	3	2	1
Iechyd yr Amgylchedd	1	0	1
Etholiadau	2	0	0
Cyfanswm	51	56	69

Am y rhan fwyaf o'r flwyddyn adrodd 2024/25, cyfeiriwyd galwadau ffôn Cymraeg i'r Cyngor i system grŵp hela, a oedd yn cynnwys pwll o swyddogion sy'n siarad Cymraeg, fel y bu'r broses ers blynyddoedd lawer. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2025, diweddarwyd y system hon fel bod galwadau Cymraeg bellach yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt. Gwnaed y newid hwn yn bosibl trwy gaffael system deleffoni newydd.

Yn ogystal â'n gwasanaethau ffôn, rydym yn cynnig ap cwbl ddwyieithog, Fy Sir Fynwy (MyMonLife), lle gall cwsmeriaid wneud taliadau, yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'n gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg. Rydym hefyd yn darparu sgwrsbot cwbl ddwyieithog, sydd ar gael 24/7, sy'n caniatáu i gwsmeriaid gael mynediad at gymorth yn y Gymraeg ar unrhyw adeg. Yn ystod oriau swyddfa, mae ein staff yn monitro'r sgwrsbot i gynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau nad yw'r sgwrsbot yn gallu eu datrys.

8. Hyrwyddo

Awgrym Cymraeg

Er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhlith staff, rydym wedi cynnwys nodwedd Awgrym Cymraeg dwyieithog yng nghylchlythyr 'Compass' y staff. Mae pob awgrym yn tynnu sylw at Safonau Iaith Gymraeg penodol ac yn darparu canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â nhw. Yn ogystal, rydym yn darparu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael i staff megis darpariaeth ar gyfer dysgu Cymraeg a llinynnau gwddf iaith Gwaith. Mae ymgyrchoedd iaith Gymraeg hefyd yn cael eu hyrwyddo yn y cylchlythyr megis ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u cynllunio nid yn unig i helpu staff i ddeall a chadw at Safonau'r iaith Gymraeg ond hefyd i annog defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith bob dydd yr Awdurdod.

Sianel 'Teams' Cymraeg

Mae Sianel 'Teams' Cymraeg yn parhau i fod yn adnodd gwerthfawr i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg. Mae croeso i bob aelod o staff ymuno â'r sianel, waeth beth fo'u gallu ieithyddol. Er mwyn annog cyfranogiad a chynhwysiant, mae pob neges gan y Swyddog Iaith yn cael ei chyhoeddi yn ddwyieithog.

Mae'r sianel hon yn darparu llwyfan i staff ryngweithio, ymarfer eu sgiliau iaith, ac adeiladu cymuned gefnogol o fewn yr Awdurdod. Mae'n llwyfan ar gyfer rhannu adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol am yr iaith Gymraeg, yn ogystal â hyrwyddo cyrsiau a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Drwy feithrin ymdeimlad o gymuned iaith Gymraeg, mae'r sianel yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gan yr adran iaith. Mae hefyd yn helpu i integreiddio'r defnydd o'r Gymraeg i waith bob dydd yr Awdurdod, gan hyrwyddo amgylchedd gwaith dwyieithog.

Diwrnod Shwmae Su'mae

Er mwyn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Shwmae Su'mae, gwnaethom lansio cystadleuaeth i staff er mwyn iddynt brofi'r hyn yr oeddynt yn ei wybod. Roedd y cwis yn cynnwys cwestiynau ar ymadroddion syml yn y Gymraeg, hanes yr iaith, deddfwriaeth iaith a Safonau'r iaith.

Derbyniodd enillydd y cwis ddau docyn i weld y band gwerin Cymreig Calan yn perfformio yn Theatr y Fwrdeistref. Rhoddwyd y tocynnau hyn yn hael gan Theatr y Fwrdeistref. Prif nod y cwis oedd hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhlith staff y Cyngor ac annog cyfranogiad yn Niwrnod Shwmae Su'mae trwy ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg.

Yn ogystal, trwy ddyfarnu tocynnau i'r enillydd i weld band Cymraeg yn perfformio'n lleol, rhoddwyd cyfle iddynt brofi'r iaith y tu allan i'r gweithle ac o fewn y gymuned. Roedd y fenter hon nid yn unig

wedi cefnogi defnydd o'r Gymraeg yng ngwaith bob dydd y Cyngor ond roedd hefyd wedi meithrin cysylltiad dyfnach â'r iaith a'r diwylliant.

9. Casgliad

Dosbarthiadau Iaith Gymraeg

Yn y flwyddyn adrodd 2024/25, cwblhaodd cyfanswm o 53 aelod o staff gwrs iaith Gymraeg, sy'n nodi cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, 2023/24, pan gwblhaodd 40 aelod o staff gwrs. I ddechrau, roedd tri aelod staff ychwanegol wedi cofrestru ar y cyrsiau Cymraeg; fodd bynnag, bu'n rhaid i ddau ddadgofrestru oherwydd amgylchiadau personol, a thra y gadawodd un aelod o staff yr Awdurdod, parhaodd â'u cwrs yn eu cyflogaeth newydd.

Wrth archwilio'r cofrestriadau ar gyfer pob lefel, gwelsom gynnydd bach yn y rhai a gwblhaodd y cwrs Mynediad 1, y lefel ddysgu gyntaf un, gyda 23 yn cwblhau yn 2023/24 a 26 yn cwblhau yn 2024/25. Arhosodd nifer y staff a gwblhaodd y cwrs Mynediad 2 yn gyson ar 10 aelod ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Yn arbennig, bu cynnydd sylweddol yn nifer y rhai a gwblhaodd y dosbarth Sylfaen, gan gynyddu o 1 yn 2023/24 i 9 yn cwblhau'r cwrs yn 2024/25.

Hyrwyddir cyrsiau iaith Gymraeg i staff drwy gydol y flwyddyn, gydag ymgyrch hyrwyddo benodol yn dechrau ym mis Mehefin i baratoi ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys 2 awr o wersi bob wythnos ac yn cael eu cynnal am oddeutu 32 wythnos yn ystod y tymor yn unig. Mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn cynnal gwerthusiadau anffurfiol rheolaidd gyda'r rhai sy'n ymgymryd â chysiau Cymraeg i gasglu adborth ar eu cynnydd. Os nodir unrhyw broblemau, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn cydweithio â'r swyddog Cymraeg yn y Gweithle yn Dysgu Cymraeg Gwent i'w datrys. Yn ogystal, cynhelir arolwg adborth tua diwedd y cyrsiau i gael gwell dealltwriaeth o foddhad â'r cwrs.

I gefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn lleoliad ystyrlon a chyhoeddus, cymerodd sawl dysgwr ran yng ngwasanaeth carolau Nadolig y Cyngor. Fel rhan o'r digwyddiad, adroddasant gerdd yn yr iaith yn hyderus, gan nodi carreg filltir arwyddocaol yn eu taith iaith. Nid yn unig y bu'r profiad hwn o gymorth i feithrin eu hyder ond dangosodd hefyd i gydweithwyr fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n weithredol o fewn yr Awdurdod. Roedd yn enghraifft gadarnhaol o ddysgu ieithoedd ar waith ac yn helpu i hyrwyddo argaeledd cyrsiau iaith Gymraeg i staff eraill.

Canolfan Gyswllt: Gweithredu System Deleffoni Newydd

Ym mis Mawrth 2025, diweddarodd y Cyngor ei brosesau ar gyfer ymdrin â galwadau Cymraeg. Cyn hyn ac am y rhan fwyaf o'r flwyddyn adrodd hon, trosglwyddwyd galwyr a oedd yn dymuno siarad â'r Cyngor yn y Gymraeg i system hela a oedd yn cynnwys amryw o swyddogion sy'n siarad Cymraeg ar draws yr Awdurdod. Fodd bynnag, gyda chaffael system deleffoni newydd gan y Ganolfan Gyswllt, mae galwadau Cymraeg bellach yn cael eu cyfeirio'n syth at gynghorydd sy'n siarad Cymraeg yn y Ganolfan Gyswllt.

Mae'r system newydd hon yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg gysylltu'n uniongyrchol ag aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n llawn i ymdrin ag ystod eang o bynciau, fel y Dreth Gyngor, Priffyrdd, a Llwybrau Glaswellt, gan ganiatáu i'w hymholiadau gael eu hateb yn gyfan gwbl yn y Gymraeg. Pan fydd galwr yn dewis yr opsiwn iaith Gymraeg, rhoddir blaenoriaeth i'w alwad yn y ciw ar gyfer staff y Ganolfan Gyswllt sy'n siarad Cymraeg. O ystyried y gyfran uwch o staff sy'n siarad Saesneg, mae modd cyfiawnhau'r blaenoriaethu hwn er mwyn sicrhau bod galwyr Cymraeg yn derbyn cymorth amserol.

Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ateb galwadau, mae'r system yn dychwelyd i'r hen system hela i sicrhau bod galwadau'n cael eu hateb heb oedi. Mae yna hefyd peiriant ateb ar gael i alwyr adael neges, a byddwn yn cysylltu nôl gyda hwy cyn gynted â phosibl.

Ar hyn o bryd, mae gennym un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn y Ganolfan Gyswllt, ynghyd â dau aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg trwy'r cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle. Er gwaethaf ein hymdrechion i recriwtio siaradwr Cymraeg ychwanegol trwy hysbysebion swyddi gwag lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol, nid ydym wedi bod yn llwyddiannus eto.

Gobeithiwn y bydd y system deleffoni newydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â ni, gan gyd-fynd ag amcan ein Strategaeth Iaith Gymraeg i gynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg. Byddwn yn monitro effeithlonrwydd y system newydd hon i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau ac i wella ein gwasanaethau'n barhaus.

Archwiliad Mewnol o Safonau'r Iaith Gymraeg

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 a dechrau 2025/26, cynhaliodd tîm Archwilio Mewnol yr Awdurdod adolygiad di-farn o gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae memorandwm yn crynhoi eu canfyddiadau wedi'i greu, ac rydym wrthi'n datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Roedd arsylwadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad wedi nodi llawer o feysydd lle gellid dangos cydymffurfiaeth â'r Safonau. Roedd yn ymddangos bod staff yn ymwybodol o negeseuon mewn cyfathrebiadau staff a'r cynnig i ddysgu Cymraeg yn y gwaith. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o anghysondeb ynglŷn â sut roedd y Safonau'n cael eu cymhwyso ar draws yr Awdurdod.

Nodwyd rhai meysydd allweddol i'w datblygu, gan gynnwys cyfleoedd i wella cyfathrebu dwyieithog mewn ymatebion e-bost awtomataidd, gwella cysondeb mewn arwyddion a chryfhau prosesau ar gyfer ymdrin â galwadau Cymraeg ar draws rhai gwasanaethau. Yn ogystal, mae lle i sicrhau bod deunyddiau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn adlewyrchu triniaeth gyfartal o'r iaith Gymraeg, ac i wneud mwy er mwyn cysoni fersiynau Saesneg a Chymraeg gwefan ac ap symudol y Cyngor (Fy Sir Fynwy).

Drwy gydol blwyddyn ariannol 2025/26, byddwn yn canolbwyntio ar weithredu'r camau angenrheidiol i gryfhau ein cydymffurfiaeth â'r Safonau. Bydd cyfrif manwl o ganfyddiadau'r adolygiad, y cynllun gweithredu sy'n deillio o hynny, a'r cynnydd a wnaed yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad Monitro Blynnyddol nesaf ar gyfer 2025/26.

Cyfieithiadau Iaith Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn adrodd, archwiliodd y Cyngor ddulliau amgen o ddarparu gwasanaethau cyfieithu fel rhan o'i broses ehangach o bennu cyllideb. Ysgogwyd yr adolygiad hwn gan bwysau ariannol parhaus a chynnydd amlwg yn y galw am gyfieithu, sydd wedi arwain at wariant blynnyddol yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. Roedd yr opsiynau a ystyriwyd yn cynnwys parhau â darparwyr allanol presennol, sefydlu tîm cyfieithu mewnol, ac archwilio trefniadau cydweithredol gydag Awdurdodau cyfagos fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Wrth werthuso'r opsiynau hyn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r effaith bosibl ar fusnesau bach Cymru, ansawdd ac amseroldeb darparu gwasanaethau, a'r angen i gynnal cydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r gwaith hwn wedi'i ategu gan Asesiad Effaith Integredig sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ac mae'n parhau i fynd rhagddo wrth i ni weithio tuag at fodel cyfieithu cynaliadwy, effeithlon ac o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein cymunedau.

Nid yw penderfyniad terfynol ar y model darparu yn y dyfodol wedi'i gadarnhau eto a bydd diweddariad llawn yn cael ei ddarparu yn yr Adroddiad Monitro Blynnyddol nesaf.